

## Manyleb Tendro — Monitro Gwleidyddol Rhagarweiniad

Mae angen i'r Comisiynydd Plant Cymru gael gwybod ymlaen llaw am gyfleoedd i ddylanwadu ar wneuthurwyr penderfyniadau allweddol fel Gweinidogion y Llywodraeth, gwleidyddion yn gyffredinol, a bod yn amserol ymwybodol o sut y mae'r Comisiynydd yn cael eu gweld gan wleidyddion a beth yw'r sialensiau newydd gyda phobl iau yng Nghymru. I wneud hyn yn effeithiol, mae angen gwasanaeth monitro gwleidyddol ar y Comisiynydd. Bydd y gwasanaeth yn darparu dau adroddiad monitro ar wahân, un ar gyfer pob sefydliad, ond yn ffurfio tendr ar y cyd.

### Gwybodaeth Gefndir

Mae angen ceisiadau ar gyfer contract dwy flynedd arnom, i ddechrau ar 02/12/2019, gyda'r opsiwn o'i ymestyn am flwyddyn. Mae gwybodaeth atodol yn rhoi cefndir ar gyfer y Comisiynydd ar gael ar ein gwefan yn: <http://www.complantcymru.org.uk/>.

### Amserlen tendro

Dyma'r dyddiadau allweddol:

1. Rhoi'r Tendr Allan Dydd Llun 4 Tachwedd 2019
2. Dyddiad cau ar gyfer tendro Dydd Llun 18 Tachwedd 2019, 5y.p.
3. Llunio rhestr fer Dydd Iau 21 Tachwedd 2019
4. Dyfarnu'r contract Dydd Gwener 22 Tachwedd 2019
5. Dechrau'r contract Dydd Llun 2 Rhagfyr 2019.

### Cyflwyno'r Tendrau

Os gwelwch yn dda rhowch ddyfynbris ysgrifenedig ar gyfer y wybodaeth ganlynol gan egluro'n fanwl sut y byddwch yn darparu'r gwasanaeth hwn. Cofiwch hefyd nodi unrhyw wybodaeth ychwanegol y bydd eich gwasanaeth monitro gwleidyddol yn ei gynnwys:

- Tra bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n eistedd, rhybuddion yng nghyswllt gwybodaeth berthnasol, gan gyfeirio'n briodol at y 'Comisiynydd Plant' a thrafodaethau perthnasol i ddatblygu polisi ar faterion yn effeithio ar blant a phobl ifanc ar draws Cymru. Dylai'r rhybuddion hyn gynnwys monitro cofnodion trafodaethau mewn cyfarfodydd llawn, cofnodion trafodion pwyllgorau, cwestiynau allweddol a gyflwynir ac a atebir. Datganiadau i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, datganiadau i'r wasg gan bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a datganiadau cyffredinol i'r wasg, a chyfathrebiadau perthnasol a gyhoeddir i'r wasg gan bleidiau gwleidyddol.
- Rhybudd ymlaen llaw o gynlluniau busnes cyfarfodydd llawn a phwyllgorau tra bo'r Cynulliad yn eistedd gan nodi trafodaethau sydd o ddiddordeb penodol.
- Monitro datganiadau perthnasol i'r wasg gan Lywodraeth Cymru yn ystod toriadau'r Cynulliad.
- Rhybudd ymlaen llaw, a diweddariadau ar fusnes perthnasol gan y Tai Seneddol gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i fonitro deddfwriaeth, trafodaethau yn y siambrau a chofnodion trafodion pwyllgorau.

- Ambell i gais achlysurol i fonitro trafodaethau penodol — fel arfer trafodion pwyllgorau yn San Steffan neu Fae Caerdydd lle mae oedi wedi bod gyda chyhoeddi'r cofnodion.
- Diweddariadau ar gynadleddau'r pleidiau yng Nghymru
- Cyfathrebu'n amserol unrhyw newidiadau mewn personél gan gynnwys Cynghorwyr Gwleidyddol Arbennig a swyddogion allweddol.

Bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried wrth ddyfarnu'r contract:

- Capasiti i gwrdd â'r galw am rybuddion amserol ymlaen llaw o gyfleoedd yn yr arena wleidyddol.
- Yn gallu deall briffiau'r Comisiynydd a bod yn greadigol wrth gymhwyso'r ddealltwriaeth hon, e.e. sylwi ar rywbeth pwysig nad yw efallai wedi'i labelu fel 'blant' ar yr olwg gyntaf.
- Rhoi gwerth am arian.
- Yn gallu meddwl yn greadigol am gyfleoedd i ddylanwadu, e.e. casglu gwybodaeth ymlaen llaw am gyhoeddiad.

Nodwch yn glir os gwelwch yn dda os yw eich dyfynbris yn cynnwys TAW neu beidio, ac a fydd unrhyw daliadau ychwanegol. Anfonwch eich manyleb a'ch dyfynbris ysgrifenedig, os gwelwch yn dda, at sylw Rachel Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Comisiynydd Plant Cymru, Ty Ystumllwynarth, Ffordd Phoenix, Llansamlet, Abertawe, SA7 9FS neu drwy e-bost at [rachel.thomas@complantcymru.org.uk](mailto:rachel.thomas@complantcymru.org.uk)

### **Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data**

Dylech fod yn ymwybodol bod yr holl wybodaeth a gedwir gan y Comisiynydd yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data gan gynnwys caffael gwybodaeth. Nodwch yn glir pa wybodaeth, os o gwbl, yn eich cyflwyniad fyddai'n cael ei hystyried i fod yn fasnachol sensitif neu'n gyfrinachol o ran ei ffeithiau fel y'i disgrifir yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

### **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn disodli a dod â'r holl gyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol o dan un Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus newydd sy'n disodli'r dyletswyddau ar wahân blaenorol ar hil, anabledd a chydraddoldeb rhwng y rhywiau. Nod y ddyletswydd cydraddoldeb yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y medrant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn dod yn rhan annatod o ddylunio polisiâu a darparu gwasanaethau ac yn cael eu hadolygu'n gyson. Dylai arwain at ganlyniadau gwell i bawb. Byddem yn disgwyl i'n cyflenwyr ddangos eu bod yn deall ein gwerthoedd ar gydraddoldeb yn y ffordd y maen nhw'n gweithio gyda ni i ddarparu eu nwyddau a'u gwasanaethau.

### **Safonau Iaith Gymraeg**

Mae'r Comisiynydd yn dod o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg ac mae ganddynt Gynlluniau Iaith Gymraeg, sy'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau tendr yn Gymraeg.

## Tender Specification — Political Monitoring

### Introduction

The Children's Commissioner for Wales requires advance notice of opportunities to influence key decision makers such as Government Ministers and politicians in general, timely awareness of how the Commissioner's office is perceived by politicians and the emerging challenges around children and young people in Wales. In order to do this effectively, the Commissioner requires a political monitoring service.

### Background Information

We are requiring applications for a two year contract, starting on 02/12/2019 with an option of a one year extension. Supplementary information providing background to the Commissioner's office, role, remit and powers is available on our website: [www.childcomwales.org.uk](http://www.childcomwales.org.uk)

### Tendering timetable

The key dates are as follows:

1. Issue Tender Monday 4 November 2019
2. Closing date for tenders Monday 18 November 2019 5pm
3. Shortlisting Thursday 21 November 2019
4. Award of contract Friday 22 November 2019
5. Contract start date Monday 2 December 2019

### Tender Submission

Please provide a written quotation for the following information and please explain in detail how you will provide this service. Please also note any additional information that your political monitoring service will cover:

- While the National Assembly for Wales is sitting, alerts covering relevant information, including relevant mentions of 'Children's Commissioner', and debates relevant to policy development on matters affecting children and young people across Wales. These alerts should include monitoring of records of plenary debates, records of committee proceedings, key questions submitted and answered. Welsh Government press releases, National Assembly for Wales committee and general press releases, and relevant communications issued to the press from political parties.
- Advance notice of plenary and committee business plans whilst the Assembly is sitting, identifying debates of particular interest.
- Monitoring of relevant Welsh Government press releases when Assembly is in recess.
- Advance notice of, and updates on, relevant business from the Houses of Parliament including, but not limited to, monitoring of legislation, chamber debates and records of committee proceedings.
- Occasional one off requests to monitor particular debates — usually committee deliberations at Westminster or Cardiff Bay where there is a delay in publication of minutes.
- Wales party conference updates
- Timely communication of changes in personnel, including Special Political Advisers and key officials.

The following factors will be considered for the awarding of the contract:

- Capacity to meet the demand for timely advance warnings of opportunities in the political arena.
- Ability to understand the Commissioner's brief and to be creative in applying this understanding e.g. spotting something important that may not be labelled as a 'children's issue' at first sight.
- Achieving value for money.
- Ability to think creatively about opportunities to influence e.g. advance intelligence about announcement.

Please indicate clearly if your quote is inclusive or exclusive of VAT and indicate if there are any additional charges.

Please send your written quote and specification for the attention of Rachel Thomas, Head of Policy and Public Affairs, Children's Commissioner for Wales, Oystermouth House, Charter Court, Phoenix Way, Llansamlet SA7 9FS or by email [rachel.thomas@childcomwales.org.uk](mailto:rachel.thomas@childcomwales.org.uk)

### **Freedom of Information and Data Protection**

Please be aware that all information held by the Commissioner is subject to Freedom of Information Act and Data Protection Act including procurement information. Please state clearly what if any information within your submission would be considered commercially sensitive or confidential in fact as set out in the Freedom of Information Act.

### **Equality Act 2010**

The Equality Act 2010 brings together and replaces the previous antidiscrimination laws within a single Act. The Act includes a new public sector equality duty which replaces the previously separate duties on race, disability and gender equality. The aim of the equality duty is to ensure that public authorities and those carrying out a public function consider how they can positively contribute to a fairer society through advancing equality and good relations in their day-to-day activities. The duty ensures that equality considerations are built into the design of policies and the delivery of services and that they are kept under review. This should achieve better outcomes for all. We would want our suppliers to demonstrate an understanding of our values on equality in the way in which they work with us in the delivery of their goods and services.

### **Welsh Language Scheme**

The Commissioner is covered by the Welsh Language Act and has a Welsh Language Scheme, in compliance with the Welsh Language Standards. Tender applications are welcomed in Welsh.